Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011 Y tu allan i'r pwyllgor**

**Dyddiad:** Y tu allan i'r pwyllgor
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Yr Ysgrifenyddiaeth, estyniad 8705

# Cynnig i ethol ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn yr Aelodau

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 O dan Reol Sefydlog Rhif 1.7, "Ar gynnig a wneir gan y Comisiwn, rhaid i'r Cynulliad ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau'r Cynllun". Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Comisiynwyr gymeradwyo cynnig drafft a'i gyflwyno.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i'r Comisiwn gymeradwyo'r cynnig drafft (sydd i'w gael yn Atodlen A) i ethol ymddiriedolwyr i'r cynllun pensiwn, a'i gyflwyno.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Mae Rheol Sefydlog Rhif 1.7 yn datgan: "Ar gynnig a wneir gan y Comisiwn, rhaid i'r Cynulliad ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau'r Cynllun".

3.2 Mae'r ymddiriedolwyr wedi gofyn i'r Comisiynwyr gyflwyno cynnig a fydd yn destun dadl ddydd Mercher 12 Hydref. Diben y cynnig yw cynyddu nifer yr ymddiriedolwyr ar gorff ymddiriedolwyr cynllun pensiwn yr Aelodau i'r nifer llawn a ganiateir gan reolau'r cynllun, sef chwech, o ganlyniad i ymddiswyddiad tri ymddiriedolwr yn gynharach eleni.

3.3 Yn ychwanegol at benodi ymddiriedolwyr newydd ar ran yr Aelodau, a enwebir gan grwpiau'r pleidiau, cynhaliwyd balot hefyd ymysg aelodau'r cynllun i ddewis ymddiriedolwr ar ran y pensiynwyr o ganlyniad i ymddiswyddiad yr Arglwydd Wigley. Etholodd aelodau'r cynllun Gareth Jones yn ymddiriedolwr ar ran y pensiynwyr. Gan fod Gareth yn ymddiriedolwr ar ran yr Aelodau ar hyn o bryd, nid oes angen ei ailethol yn ymddiriedolwr ar ran y pensiynwyr.

Atodiad A

**Cynnig drafft i ethol ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn yr Aelodau**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 1.7, yn ethol David Melding AC, Mike Hedges AC, Peter Black AC a Jocelyn Davies AC, yn ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle Rosemary Butler AC, John Griffiths AC, yr Arglwydd German a'r Arglwydd Wigley.

To propose that the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 1.7, elects David Melding AM, Mike Hedges AM, Peter Black AM and Jocelyn Davies AM as Trustees of the National Assembly for Wales Members' pension scheme in place of Rosemary Butler AM, John Griffiths AM, Lord German and Lord Wigley.